O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 189 (Cy. 40)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Heol y Parc a Hereford Road, Y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Cherddwyr Dros Dro) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *5 Chwefror 2018* |
| *Yn dod i rym* | *12 Chwefror 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Heol y Parc a Hereford Road, Y Fenni, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau a Cherddwyr Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 12 Chwefror 2018.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 12 Chwefror 2018 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro a gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o Gefnffordd yr A40 Rhaglan i Lanymddyfri a’r troetffyrdd a ganlyn:

i. Y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 15 metr i’r dwyrain o ganolbwynt cyffordd Park Avenue a Heol y Parc hyd at bwynt 145 o fetrau i’r de o ganolbwynt cyffordd Hereford Road a Heol y Parc;

ii. Y darn o’r droetffordd ar ochr ogleddol y gefnffordd o’r enw Heol y Parc sy’n ymestyn o bwynt 5 metr i’r dwyrain o ganolbwynt y fynedfa i Barc Bailey hyd at ei chyffordd â Hereford Road i gyfeiriad y dwyrain; a

iii. Y darn o’r droetffordd ar ochr orllewinol y gefnffordd o’r enw Hereford Road sy’n ymestyn o’i chyffordd â Heol y Parc hyd at ei chyffordd â Stryd y Llew i gyfeiriad y de.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o’r gefnffordd.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r droetffordd.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 5 Chwefror 2018

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli’r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru